*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1648 (Cy.160)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) a (2) a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (**2**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan adran 18(3) o'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) a daw i rym ar 25 Mehefin 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

y mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 25 Mehefin 2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau iechyd cymunedol" ("*community health services*") yw unrhyw wasanaeth y dichon Gweinidogion Cymru ei ddarparu o dan adran 3(1) o'r Ddeddf neu Atodlen 1 iddi;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

### Sefydlu'r ymddiriedolaeth

**2.** Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'r enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru neu the North Wales National Health Service Trust.

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) 1993 p.38, Trosglwyddwyd swyddogaethau unrhyw Weinidog y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth**

**3.**—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y dibenion a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Swyddogaethau'r ymddiriedolaeth fydd darparu nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys lle mewn ysbyty a gwasanaethau iechyd cymunedol) o

(a) Ysbyty Glan Clwyd, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 5UJ;

(b) Ysbyty Wrecsam Maelor, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD;

ac ysbytai a mangreoedd cysylltiedig.

**Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth**

**4.**—(1) Bydd gan yr ymddiriedolaeth, yn ychwanegol at y cadeirydd, 7 cyfarwyddwyr anweithredol a 5 cyfarwyddwyr gweithredol.

(2) Gan fod rhaid ystyried fod i'r ymddiriedolaeth ymrwymiad arwyddocaol i addysgu o fewn ystyr paragraff 5(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, y mae un o'r cyfarwyddwyr anweithredol i'w benodi o Brifysgol Caerdydd.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth**

**5.**—(1) Dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth fydd 1 Gorffennaf 2008.

(2) Dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth fydd 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6.** Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i ddyddiad gweithredol y mae i'r ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol—

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y fath bethau eraill ag sy'n rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru, ymddiriedolaeth GIG y darperir ar ei chyfer yn adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r ymddiriedolaeth yn erthygl 3. Mae'n pennu dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu yr ymddiriedolaeth yn erthygl 5.